Cyngor Tref Amlwch Town Council
Cofnodion cyfarfod aml-leoliad y Cyngor Llawn gynhaliwyd 27/9/2022.
Minutes of the hybrid Full Council Meeting held 29/9/2022

Presennol/Present: Gareth Winston Roberts OBE, Gareth Thomas, Liz Wood, Julie Edwards, Myrddin Owens, Gordon Warren, Gerry Belanger

Ymddiheuriadau/Apologies: Alan Wood, Llinos Knowles Williams, Nina Bulkeley, Meg Roberts, Derek Owen, Aled Morris Jones

Wrth Law/In Attendance: Elen Foulkes (Menter Mon) Carli Evans Thau (clerc/clerk), Hywel Hughes (cyfieithu/ translation)

1 Croeso ac Ymddiheuriadau / Welcome and Apologies
Bu Gareth Winston Roberts gadeirio'r cyfarfod a chroesawy pawb yn bresennol.
Gareth Winston Roberts chaired the meeting and welcomed all present.

2 Datgan Diddordeb / Declaration of Interest
Liz Wood – cynllunio/planning

3 WiFi Cymunedol / Community WiFi (Menter Mon)
Croesawyd Elen Foulkes i'r cyfarfod a bu iddi roi cyflwyniad byr i'r aelodau am brosiect wifi cymunedol sydd yn cael ei ddarparu ar y cyd gyda CSYM a Menter Mon yn nhrefi yr ynys (copi o'r cyflwyniad ar gael gan y clerc). Nodwyd bod y wifi am ddim i ddefnyddwyr a hefyd gyda'r gallu i gasglu data am y nifer o bobl oedd yn yr ardal, am ba hyd, am ba reswm ayyb – byddai posib defnyddio'r data di-enw yma fel tystiolaeth i gefnogi ceisiadau grant ayyb. Cafwyd sicrwydd nad oedd gwybodaeth personol yn cael ei gadw, a bod y wybodaeth oedd yn cael ei gasglu yn cael ei reoli'n ofalus. Nodwyd byddai cost o £300 y flwyddyn (costau trydannol) ar gyfer y prosiect yn y dref – ni fyddai unrhyw gostau offer na chynnal y system. Bu Myrddin Owens gynnig bod y Cyngor Tref yn cefnogi'r prosiect ac yn cyfrannu y £300 tuag at y costau trydannol, bu eilio gan Liz Wood, a'r aelodau yn unfrydol gefnogol.

Elen Foulkes was welcomed to the meeting and she gave a short presentation to the members about a community wifi project which is being provided jointly with IACC and Menter Mon in Anglesey towns (a copy of the presentation is available from the clerk). It was noted that the wifi was free for users and also had the ability to collect data about the number of people in the area, for how long, for what reason etc. - it would be possible to use this anonymous data as evidence to support grant applications etc. It was assured that no personal information was kept, and that the information that was being collected was carefully managed. It was noted that there would be a cost of £300 per year (electrical costs) for the project in the town - there would be no costs for equipment or maintaining the system. Myrddin Owens proposed that the Town Council support the project and contribute the £300 towards the electrical costs, Liz Wood seconded, and the members were unanimously supportive.

4 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf / Minutes of the Last Meeting
Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod diwethaf – cynnig Myrddin Owens, eilio Gareth Thomas.
The minutes of the last meeting were approved – proposed Myrddin Owens, seconded Gareth Thomas.

5 Materion yn Codi / Matters Arising
5.1 Cafwyd ddiweddariad am gyfarfod sydd i'w gynnal gyda swyddogion yr Eglwys. Rhoddwyd hawl i'r aelodau ynghlwm a'r prosiect i weithredu ac adrodd yn ol pan fu diweddariadau ar gael.

There was an update about a meeting to be held with Church officials. The members involved with the project were given the power to act and report back when updates were available.

5.2 Pwylsleiswyd pwysigrwydd bod yr aelodau sirol yn rhoi cais i CSYM gynnwys Dydd Gwyl Dewi ar agenda cyfarfod y Cyngor Sir.

The importance that the county members request the inclusion of St David's Day on the agenda of the County Council meeting was emphasised.

5.3 Cafwyd gadarnhad gan CSYM eu bod wedi ymweld a siop Pritchard's Hardware a'u bod erbyn hyn yn cydymffurio a bod y palmant tu allan i'r siop yn glir. Bydd y Cyngor yn parhau i anfon lluniau a thystiolaeth ymlaen i CSYM pan fydd cwynion yn cael eu derbyn gan aelodau'r gymuned. Cytuno gofyn i'r tri aelod sirol i gael gair anffurfiol gyda perchennog y siop dan sylw.

Confirmation was received from the IACC that they had visited the Pritchard's Hardware store and that they were now cooperating and that the pavement outside the store was clear. The Council will continue to forward photos and evidence to IACC when complaints are received from members of the community. Agree to ask the three county members to have an informal word with the owner of the shop in question.

5.4 Cafwyd wybod bod Gareth Winston Roberts a'r clerc wedi cwrdd ag Anglesey Mining cyn eu diwrnod agored am ddiweddariad. Deallwyd eu bod yn cydweithio gyda pump ffermwr yn yr ardal a bu cadarnhau lleoliad y gwaith arfaethiedig. Cafwyd gadarnhad na fyddai dwr wedi'i lygru yn gadael y safle, ac mai'r bwriad oedd ail-ddefnyddio unrhyw ddwr ar y safle ei hun. Bydd 12-18 mis o waith eto cyn daw cadarnhad am swyddi i'r ardal. Nodwyd bod y cwmni yn broffesiynnol iawn eu hagwedd. Bu Gordon Warren gadarnhau ei fod wedi mynychu'r diwrnod agored a bu iddo ddiolch am y cyfle i ymweld a'r mynydd.

It was reported that Gareth Winston Roberts and the clerk had met with Anglesey Mining before the open day for an update. It was understood that the company was working with five farmers in the area and the location of the proposed work was confirmed. It was confirmed that polluted water would not leave the site, and that the intention was to reuse any water on the site itself. There will still be 12-18 months of work before there is any confirmation of employment opportunities. It was noted that the company was very professional in their approach. Gordon Warren confirmed that he had attended the open day and thanked the council for the opportunity to visit the mountain.

6 Pwyllgorau Allanol / External Meetings

6.1 Cafwyd adroddiad drwy ebost gan Gordon Warren yn dilyn cyfarfod y Fforwm Cyswllt. Bu diolch iddo am fynychu'r cyfarfod ac adrodd yn ol.

Gordon Warren provided a report via email following the Liaison Group meeting. He was thanked for his report and feedback.

6.2 Cafwyd adroddiad yn dilyn cyfarfod gyda swyddogion priffyrdd CSYM i drafod gwelliannau i briffyrdd a phalmentydd y dref i'w gwneud yn fwy hwylus i bobl anabl a rhieni gyda phramiau i gael o gwmpas yn ddiogel. Bu'r clerc gadarnhau bod yr adroddiad wedi ei anfon i'r aelodau er gwybodaeth.

Members gave a report following a meeting with IACC highways officers to discuss improvements to roads and pavements to improve accessibility for disabled people and parents with pushchairs to get around the town. The clerk confirmed that the report had been circulated to all members for information.

6.3 Bu dosbarthu hefyd adroddiad yn dilyn cyfarfod safle gyda CSYM i drafod y clogwyn goffa ym Mhorth Amlwch. Mae disgwyl cadarnhad gan y swyddogion perthnasol i gael yr hawl i osod ffens a giat o flaen y gofeb. Nodwyd mai llecyn i gofio a pharchu'r rhai sydd wedi eu henwi ar y placiau oedd hwn, ac nid lle i bartio ac ymgynull. Bu diolch i Gareth Winston Roberts am ei waith.

A report following a site meeting with IACC to discuss the memorial wall in Amlwch Port was also distributed. Confirmation is awaited from the relevant officers to install a short fence and gate in front of the memorial. It was noted that it was an area to remember and respect the individuals named on the plaques, and not somewhere to get together and party. GarethWinston Roberts was thanked for his work.

7 Adroddiad Pwyllgor Cyllid / Finance Committee Report

Cafwyd grynodeb o'r cyafarfod diwethaf gan Myrddin Owens. Cafwyd wybod bod rhestr taliadau wedi eu cymeradwyo ar gael gan y clerc, a bod cais am arian gan Ty Gobaith wedi ei ohurio nes bod yr holl

wybodaeth berthnasol wedi ei dderbyn. Bu'r pwyllgor argymell bod cyfranniad o £300 yn cael ei dalu i'r Clwb Peldroed tuag at y gost o drwsio'r ffens derfyn. Ni fu gwrthwynebiad.

Trafodwyd yr angen i dynnu y 'gantries' am resymau iechyd a diogelwch – bu'r pwyllgor gytuno cyfrannu hyd at £2.5k tuag at y gost hynnu. Ni fu gwrthwynebiad.

Bu tynnu sylw'r pwyllgor cyllid at broblem oedd wedi codi gyda prosiect Effeithlonrwydd Ynni. Roedd y cais grant wedi ei wneud yn enw'r Cyngor Tref ar ran nifer o gymunedau ledled yr ynys, ac mae hyd at £12k wedi ei ddal yn ol gan y corff ariannu. Cytuno yn unfrydol byddai Gareth Winston Roberts a Myrddin Owens yn cwrdd a'r asiant i drafod ymhellach.

Bu Myrddin Owens ddosbarthu taflenni gwybodaeth yn dangos gwariant cyfalaf gan CSYM yn nhrefi Mon dros y flwyddyn diwethaf, a hefyd yr hyn oedd wedi ei ddyrannu ar gyfer y flwyddyn ariannol yma. Roedd y pwyllgor wedi eu siomi nad oedd Amlwch unwaith eto yn cael chwarae teg. Bu'r Cyngor Llawn ategu'r siom a rhwystredigaeth.

Nodwyd bod aelodau'r pwyllgor wedi cwrdd a pherchnogion safle Rehau ar y safle a bu nodi pryderon am ddiffyg gwybodaeth gan CSYM a LLC am gefnogaeth i fusnesau ddatblygu'r safle. Mae Myrddin Owens wedi cysylltu a CSYM ac wedi derbyn y wybodaeth berthnasol, ac wedi cysylltu hefyd a LLC ond yn dal i ddisgwyl derbyn y wybodaeth. Mae'r pwyllgor cyllid wedi cytuno trefnu cyfarfod gyda'r swyddogion perthnasol CSYM/LLC i drafod ymhellach materion yn ymwneud a Rehau a buddsoddiad economaidd yn Amlwch yn gyffredinol.

Myrddin Owens gave a summary of the last meeting. It was noted that a list of approved payments was available from the clerk, and that a request for money from Hope House had been deferred until all the relevant information had been received. The committee recommended that a contribution of £300 be paid to the Football Club towards the cost of repairing the boundary fence. There was no objection.

The need to remove the gantries for health and safety reasons was discussed - the committee agreed to contribute up to £2.5k towards the removal cost. There was no objection.

The finance committee's attention was drawn to a problem that had arisen with the Energy Efficiency project. The grant application had been made in the name of the Town Council on behalf of a number of communities throughout the island, and up to £12k has been withheld by the funding body. It was unanimously agreed that Gareth Winston Roberts and Myrddin Owens would meet the agent to discuss further.

Myrddin Owens distributed information showing capital expenditure by IACC in Anglesey towns over the past year, and also what had been allocated for this financial year. The committee was disappointed that Amlwch was once again not getting a fair share. The Full Council supported the disappointment and frustration.

It was noted that the members of the committee had met the owners of the Rehau site onsite and there were concerns about a lack of information from IACC and WG about support for businesses to develop the site. Myrddin Owens has contacted IACC and received the relevant information, and has also contacted LLC but is still waiting for the relevant information. The finance committee has agreed to arrange a meeting with the relevant IACC/WG officers to further discuss matters relating to Rehau and economic investment in Amlwch in general.

8 Diweddariad y Fynwent / Cemetery Update

Cafwyd ddiweddariad am y gwaith i ddatblygu adran 12 – bydd gwaith ymchwil yn parhau gyda peiriannau yn y fynwent 4/10/22 a 5/10/22 i gwblhau arolygon tanddaearol.

There was an update on the work to develop section 12 - research work will continue with machinery in the cemetery 4/10/22 and 5/10/22 to complete underground surveys.

9 Diweddariad Parciau a Mannau Agored / Parks and Open Spaces Update

Cafwyd diweddariad cynhwysfawr gan Liz Wood yn dilyn cyfarfodydd y pwyllgor. Bu'r cyngor gytuno anfon llythyrau at drigolion Craig y Don yn tynnu sylw am sbwriel a llanast sy'n cael ei adael ar rhannau o'r cae chwarae yn reolaidd. Bu'r Cyngor gytuno ysgrifennu at Chris Lee i ddiolch iddo, ac i basio'r neges ymlaen i'r gwirfoddolwyr eraill am eu gwaith i dacluso ardaloedd penodol ym Mhorth Amlwch.

Mae angen bin yng nghae chwarae Maes Llwyn a gwirio bod y ffens a'r cegin fwd wedi eu paentio. Cafwyd wybod nad ydy'r ddolen ar y giat i faes chwarae Lon Wen yn gweihio'n iawn – y clerc i dynnu sylw Andrew Ganderton i'w drwsio.

Nodwyd nad oedd Julie Edwards yn aelod o'r pwyllgor ar hyn o bryd er ei bod wedi ei phenodi yn swyddog llwybrau – bu'r Cyngor gytuno ei chyfethol i'r pwyllgor.

Liz Wood gave a comprehensive update following the committee meetings. The council agreed to send letters to the residents of Craig y Don drawing attention to rubbish and mess that is left on parts of the playing field regularly. The Council agreed to write to Chris Lee to thank him, and to pass the message on to the other volunteers for their work to tidy up specific areas in the Port.

A bin is needed in the Maes Llwyn playground, and to check that the fence and the mud kitchen have been painted. It was noted that the link on the gate to the Lon Wen playground is not working properly - the clerk to draw Andrew Ganderton's attention to fix it.

It was noted that Julie Edwards was not a member of the committee at the moment although she had been appointed as the footpaths officer - the Council agreed to co-opt her to the committee

10 Diweddariad Goleuadau Nadolig / Christmas Lights Update

Mae trefniadau yn parhau i osod a goleuo'r goleuadau yn y dref – bydd y goleuadau yn cael eu troi ymlaen ar ddydd Sadwrn diwethaf mis Tachwedd fel yr arfer (26/11/22). Nodwyd bod tri sedd wag ar y pwyllgor a bu cyfethol Gordon Warren a Gareth Thomas i ddau ohonynt.

Arrangements are underway to install and switch on the lights in the town - the lights will be switched on, on the last Saturday in November as usual (26/11/22). It was noted that there were three vacant seats on the committee and Gordon Warren and Gareth Thomas were co-opted for two of them.

11 Materion Cynllunio / Planning Matters

11.1 Ceisiadau / Applications

Bu cadarnhau sylwadau'r aelodau fel a ganlyn: *Members observations were noted as follows:*

- Bryn Parys (HHP/2022/172) – eisioes wedi ei ganiatau gan CSYM/Already approved by IACC
- 54 Llaneilian Road (HHP/2022/259) – Liz Wood yn datgan diddordeb; dim gwrthwynebiad / Liz Wood declared an interest; no objection

11.2 Penderfyniadau / Decisions

Cafwyd wybod am benderfyniadau CSYM fel a ganlyn / IACC decisions were noted as follows:

- Bryn Parys (HHP/2022/172) – caniatad/granted
- Rhianfa, Stryd Mona (FPL/2022/152) – gwrthodwyd/refused

11.3 Arall / Other

Nodwyd siom bod Gwesty Porth Llechog wedi ei ddymchwel a bu gofyn i'r clerc gysylltu a CSYM i ofyn pwy oedd wedi awdurdodi'r gwaith. Nododd Liz Wood ei bod wedi cael ebost yn datgan y wybodaeth yma gan CSYM yn barod, gan nodi bod yr adeilad wedi ei adnabod yn beryglus.

Disappointment was noted that Bull Bay Hotel had been demolished and the clerk was asked to contact the IACC to ask who had authorised the work. Liz Wood noted that she had already received an email stating this information from the IACC, stating that the building had been deemed dangerous.

12 Cyfethol / Co-option

Cadarnhawyd na fydd etholiad ym Mhorth Amlwch.

It was confirmed there would be no election in Amlwch Port.

13 Gwariant Cyfalaf CSYM / IACC Capital Expenditure

Mater wedi ei drafod eisioes (adroddiad pwyllgor cyllid). Bu diolch i Myrddin Owens am ofyn i CSYM am y wybodaeth. Pwysleiswyd eto nad oedd bai ar y cynghorwyr sirol presennol gan nad oeddent wedi eu hethol pan bu gosod y gyllideb am 2022/23.

The matter has already been discussed (finance committee report). Myrddin Owens was thanked for asking the IACC for the information. It was emphasised again that the current county councillors were not to blame as they had not been elected when the budget for 2022/23 was set.

14 Cwestiynnau i'r Cynghorwyr Sirol / Questions to the County Councillors

Bu Gerry Belanger godi nifer o faterion at sylw Liz Wood –

- Diweddariad am safle garej Glanrhos – mae Liz Wood yn disgwyl ymateb pellach gan perchnogion y safle.
- Capel Stryd Wesle (Mona Safety gynt) – mae cerbydau ar y lon yn parhau yn broblem ac yn bryder diogelwch i blant. Liz Wood i ddilyn i fynu gyda CSYM a'r heddlu eto.
- Llwybr Awelfryn – mae disgwyl cyfarfod ar y safle gyda'r swyddogion perthnasol.
- Materion Craig y Don – mae Liz Wood mewn cysylltiad a'r swyddogion perthnasol a bydd cyfarfod safle yn fuan.
- Nodwyd bod y llwybrau ym Maes Llwyn angen eu torri a'u clirio
- Ni fu diweddariad pellach am y llwybr ym Mhorth Llechog -y clerc i gysylltu ag Mr Murphy eto a chopi i swyddogion perthnasol CSYM

Gerry Belanger raised a number of issues to Liz Wood's attention -

- *Update on the Glanrhos garage site - Liz Wood expects a further response from the owners of the site.*
- *Wesley Street Chapel (formerly Mona Safety) - vehicles on the lane remain a problem and a safety concern for children. Liz Wood to follow up with the IACC and the police again.*
- *Awelfryn footpath - a meeting is expected on the site with the relevant officials.*
- *Craig y Don matters - Liz Wood is in contact with the relevant officers and there will be a site meeting soon.*
- *It was noted that the paths in Maes Llwyn need to be cut and cleared*
- *There has been no further update about the footpath in Bull Bay - the clerk to contact Mr Murphy again and copy to the relevant IACC officers*

15 Gohebiaeth / Correspondence

Bu tynnu sylw at hyfforddiant cod ymddygiad a'r angen i'r cyngor ddatblygu polisi hyfforddiant. Pwysleiswyd pwysigrwydd bod aelodau yn mynychu sesiynnau hyfforddiant perthnasol a bu tynnu sylw at y sesiynnau a gybhaliswyd drwy Un Llais Cymru.

Attention was drawn to code of conduct training and the need for the council to develop a training policy. The importance of members attending relevant training sessions was emphasised and attention was drawn to the sessions approved through One Voice Wales.

16 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf / Date of Next Meeting

Cynhelir cyfarfod cyffredinol nesaf y Cyngor Llawn 25/10/2022
The ordinary Full Council meeting will be held 25/10/2022

Bu'r cyfarfod orffen am 20.05 / The meeting closed at 20.05.

Gareth Winston Roberts OBE
Cadeirydd / Chair
Cyngor Tref Amlwch Town Council

CET09/2022